COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB /REMOTELY VIA MICROSOFT TEAMS DYDD MERCHER, 21 MEHEFIN 2023, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd W J Kendall – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | H T Bennett | A R Berrow | F D Bletsoe |
| S J Bletsoe | E L P Caparros | N Clarke | RJ Collins |
| HJ David | C Davies | P Davies | S Easterbrook |
| M J Evans | N Farr | P Ford | J Gebbie |
| W R Goode | RM Granville | H Griffiths | S J Griffiths |
| D T Harrison | M L Hughes | D M Hughes | M R John |
| M Jones | MJ Kearn | M Lewis | J Llewellyn-Hopkins |
| J E Pratt | E Richards | R J Smith | JC Spanswick |
| I M Spiller | T Thomas | G Walter | A Wathan |
| A Williams | AJ Williams | HM Williams | I Williams |
| MJ Williams | R Williams | E D Winstanley | T Wood |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

JPD Blundell, C L C Davies, RM James, P W Jenkins, RL Penhale-Thomas a/ac JH Tildesley MBE

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Will Lane | Rheolwr Gweithredol – Cydwasanaethau Rheoleiddio |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

139. DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd E Winstanley fuddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda, oherwydd bod Neuadd y Dref Maesteg yn cael ei gweithredu gan Ymddiriedolaeth Awen a hithau gyflogai i'r ymddiriedolaeth.

140. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir:-

12 Ebrill 2023
17 Mai 2023

141. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Rhestrodd y Maer gyfres o ddigwyddiadau yr oedd wedi'u mynychu'n ddiweddar, gan gynnwys:

- Sioe Ffasiwn Coleg Penybont
- Gŵyl y Lluoedd Arfog Pen-y-bont ar Ogwr:
- Gŵyl Lenyddiaeth i Blant - Magic Gareth, Y Pafiliwn Mawr (Esplanade Avenue, Porthcawl, Cymru, CF36 3YW)
- Gwobrau Arwr Tawel Pen-y-bont ar Ogwr 2023, ddydd Gwener 2 Mehefin yng Ngwesty Heronston
- Garddwest Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr
- Canolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr, 87 Stryd y Parc, CF31 4AZ.
- Gwobrau Stêm Coleg Pencoed ddydd Iau 8 Mehefin
- Cwis Sirol Diwrnod y Llyfr Llyfrgelloedd, Y Pafiliwn Mawr, Porthcawl, ar ran Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, ddydd Mercher 14 Mehefin

Tynnodd sylw hefyd at ddigwyddiad Cymdeithas Cyn-filwyr y Pîl a Mynydd Cynffig a gynhaliwyd ddydd Sadwrn, 10 Mehefin 2023 ym mhencadlys y gymdeithas yng Nghlwb y Lleng Brydeinig Frenhinol yn y Pîl, yn ogystal â'r gwahoddiad iddo fynd i Sul Dinesig y Maer a gynhaliwyd yn Eglwys Gadeiriol Casnewydd ddydd Sul 11 Mehefin.

Yn olaf, dywedodd y Maer fod Sarah Murphy, yr Arweinydd, y Cynghorydd Jon-Paul Blundell, cydweithwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, cydweithwyr CCD, Llywodraethwyr, aelodau PFA, cynrychiolwyr Cadwch Gymru'n Daclus a gwirfoddolwyr yn edrych ymlaen at gael eu gwahodd i Seremoni Agoriadol Ysgol Gerddi Cefn Glas, gan dynnu sylw at y grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur sydd wedi helpu i wneud y tir hyd yn oed yn fwy 'hardd yn fwriadol'. Yn ddiweddar, mae'r Ysgol wedi ennill 'Gwobr Arloesedd Eco Sgolion' yng Ngwobrau 'Cymru Daclus'.

Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd ei bod yn anrhydedd iddi gynrychioli pob un o'r 22 awdurdod lleol yn y Senedd ddoe. Roedd hyn ar gyfer lansio'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol neu'r hyn sydd bellach yn cael ei alw y Ffordd Gymreig. Bydd hyn yn cryfhau cyfraniad ein gweithlu a'n hundebau llafur. Byddai hyn hefyd yn caniatáu i gymunedau fod wrth galon yr hyn a wnawn, er mwyn hyrwyddo lles ein cymunedau.

Cafodd y Gwobrau Cydnabod Maethu cyntaf eu cynnal yn ddiweddar, gan nodi pythefnos Gofal Maeth, a dod ag awdurdodau lleol ynghyd â Thimau Maethu'r Cyngor, i ddathlu eu holl waith caled a'u hymrwymiad sy'n rhoi cychwyn buddiol mewn bywyd i bobl ifanc.

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd yn fawr iawn i ofalwyr a oedd wedi gwneud gwahaniaeth enfawr ac wedi gwella ansawdd bywyd y rhai mewn gofal yn fawr, drwy eu gwaith diflino mewn cymunedau.

Aelod Cabinet - Tai, Cynllunio ac Adfywio

Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio ddiweddariad cryno i'r Aelodau ar y datblygiadau diweddaraf gyda'r rhaglen adfywio ym Mhorthcawl. Roedd

hyn yn cynnwys gwybodaeth am yr amddiffynfeydd môr newydd, yn ogystal â'r datblygiad Cosy Corner newydd sy'n cynnwys ardal chwarae newydd ar lan y môr.

Aelod Cabinet - Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd yr wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar agor yn awr ynghylch cynlluniau ar gyfer sut y gellid mynd i'r afael â phobl anghyfrifol sy'n berchen ar gŵn yn y dyfodol. 18 Gorffennaf yw'r dyddiad cau. Mae manylion llawn ar gael ar dudalennau'r ymgynghoriad ar wefan y cyngor.

- Mae Gŵyl Love 2 Walk 2023 yn cael ei chynnal ar hyn o bryd, ac mae'n cynnwys amrywiaeth o deithiau cerdded gwahanol mewn ardaloedd fel Blackmill, Blaengarw, Pen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl, Rest Bay a Mynydd Cynffig. Mae angen archebu lle ymlaen llaw, ac mae rhagor o fanylion a rhestr lawn o'r teithiau cerdded arfaethedig ar gael ar wefan Love 2 Walk.

Aelod Cabinet - Cyllid, Adnoddau a Chyfreithiol

Gwnaeth yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol gyhoeddiad ynghylch Hybont a'r cyfarfod cyhoeddus diweddar roedd wedi'i fynychu, er mwyn casglu gwybodaeth a deall pa bryderon oedd gan breswylwyr ynghylch Hybont.

Eglurodd mai ei ddealltwriaeth ar y pryd oedd mai'r unig sgil-gynnyrch a fyddai'n cael ei gludo mewn peipiau oddi ar y safle fyddai unrhyw ddŵr poeth dros ben, ac y byddai hyn yn cael ei ddefnyddio i helpu i wresogi cyfleusterau cymunedol lleol. Fodd bynnag, yn dilyn y cyfarfod, ac eglurhad ynghylch y biblinell Hydrogen, fe ddysgodd fod ei ddealltwriaeth wreiddiol yn anghywir, ac ochr yn ochr â rhwydwaith gwresogi o bibellau dŵr mae cynnig i gynnwys piblinell hydrogen i gyflenwi boeler hydrogen ar gyfer ysgolion ac adeiladau eraill o gwmpas Ynysawdre.

Mynegodd yr Aelod Cabinet ei fod yn gresynu bod ei ddealltwriaeth o Hybont yn anghywir ac bod ei wrthwynebiad wedyn ynghylch y biblinell yn seiliedig ar gamddealltwriaeth o'r prosiect.

Dywedodd ei fod ond yn iawn iddo ymddiheuro'n llwyr am unrhyw ofid neu bryder y gallai ei weithredoedd fod wedi'i achosi.

Aeth yn ei flaen i roi diweddariad pellach ynghylch ad-dalu benthyciadau a wnaed i Gyngor Thurrock fel rhan o'n Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

Aelod Cabinet - Diogelwch Cymunedol a Lles

Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Ddiogelwch Cymunedol a Lles ddiweddariad ar y cynllun hwb cymunedol sy'n cael ei dreialu yng nghymoedd Garw ac Ogwr.

Mae'r gwasanaeth cwsmeriaid ar gael rhwng 10am a 1.30pm ar y ddau ddiwrnod, a gall cynghorwyr y gwasanaeth helpu gydag ymholiadau a cheisiadau am Fathodyn Glas, ceisiadau yn ymwneud â thai a digartrefedd, ac ymholiadau am y dreth gyngor. Hefyd, gallant gefnogi pobl sydd eisiau defnyddio gwasanaethau rheoli plâu neu roi gwybod am faterion sy'n ymwneud â'r priffyrdd fel goleuadau stryd neu dyllau mewn ffyrdd, neu faterion sy'n ymwneud â gwastraff fel tipio anghyfreithlon, graffiti neu faw cŵn.

Mae'r un lefel o gefnogaeth ar gael hefyd ym mhob llyfrgell sydd â staff Awen ar draws y fwrdeistref sirol.

Ar gyfer pob mater arall, cynghorir preswylwyr i fynd i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth neu i ddefnyddio opsiynau hunanwasanaeth digidol y cyngor, neu i ffonio'r cyngor yn uniongyrchol ar 01656 643643.

Tynnodd yr Aelod Cabinet sylw hefyd at fis Mehefin fel mis Balchder, gan longyfarch y trefnwyr a'r gwirfoddolwyr a fu'n helpu i sicrhau bod digwyddiad Pride Cymru yng Nghaerdydd yn ddiweddar yn llwyddiant ysgubol, a chan bwysleisio pwysigrwydd gwaith y Cyngor o ran cefnogi'r gymuned LHDTC+ a helpu i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth fel rhan o rwydwaith y Cynghorau Balch.
Cynhelir digwyddiad Balchder yr Haf ar 24 Mehefin.

Prif Weithredwr

Cyhoeddodd y Prif Weithredwr fod Wythnos y Lluoedd Arfog yn dychwelyd i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a sut bydd hyn yn cael ei nodi mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys ail-arwyddo Cyfamod y Lluoedd Arfog ddydd Gwener 23 Mehefin mewn seremoni yn y Swyddfeydd Dinesig i nodi ei ddegfed pen-blwydd.

Bydd baner y Lluoedd Arfog yn cael ei chodi y tu allan i'r Swyddfeydd Dinesig hefyd, gyda gorymdaith yn cynnwys milwyr sy'n gwasanaethu yn ogystal â chadetiaid, cyn-filwyr a'u teuluoedd, drwy ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr ddydd Sadwrn 24 Mehefin. Bydd yn dechrau o Dŷ Carnegie am 11am ac yn mynd i lawr Stryd Wyndham a Dunraven Place.

Bydd y digwyddiad hefyd yn cynnwys cerbydau milwrol, gweithgareddau, cerddoriaeth fyw a stondinau sy'n cynrychioli'r Lluoedd Arfog, elusennau, sefydliadau lleol a mwy. Bydd yn gorffen oddeutu 1.45pm gyda gwasanaeth awyr agored.

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw hefyd at y ffaith bod yr awdurdod lleol yn mynd ati'n frwd i annog cyn-aelodau o'r lluoedd arfog a'r rheini sy'n paratoi i ddychwelyd i fywyd sifil i ystyried ymgeisio am swyddi yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd y cynllun presennol yn gwarantu cyfweliad i gyn-aelodau'r lluoedd arfog.

142. I DDERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD

Rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad am dref antur gwerth £250 miliwn yng Nghastell-nedd Port Talbot yng Nghwm Afan uchaf sydd ar y ffin â Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ar gyrion cwm Llynfi uchaf. Bwriad y cynllun yw sbarduno ton newydd o gyflogaeth a thwristiaeth yn y cymoedd, ac mae gwaith mawr yn cael ei wneud i baratoi'r safle, a bydd tua £20 miliwn wedi cael ei fuddsoddi yn y prosiect erbyn hydref 2023.

Rhoddodd yr Arweinydd y wybodaeth ddiweddaraf am gau llwybrau troed dros dro a fyddai'n ofynnol, yr ymgysylltu â thrigolion lleol a oedd wedi digwydd yn ogystal â'r cyfleoedd cyflogaeth a fyddai'n cael eu creu yn sgil y datblygiad.

Trefnir cyfarfod safle gyda holl Aelodau Cwm Llynfi, Aelodau Cwm Afan a Wildfox Resorts, ac mae aelodau Caerau wedi cael eu gwahodd fel yr aelodau lleol i fforwm rhanddeiliaid chwarterol newydd.

Rhoddodd yr Arweinydd y wybodaeth ddiweddaraf hefyd am y Gronfa Bontio ar gyfer Bysiau, sydd wedi cael ei datblygu fel rhan o gydweithrediad rhwng awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a'r diwydiant trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r gronfa'n darparu cymorth ariannol ar unwaith i gwmnïau bysiau yng Nghymru fel bod gwasanaethau hanfodol wedi gallu parhau.

Mae cynlluniau'n cael eu hadolygu wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu model cyllido cynaliadwy tymor hwy sy'n pontio'r bwlch rhwng masnachfreinio gwasanaethau.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y digwyddiad diweddar pan blymiodd awyren ysgafn i ddyfroedd bas dim ond 50 llath oddi ar Draeth Tref Porthcawl yn ogystal â'r darnau mawr o dir yn Nyffryn Garw a ddinistriwyd gan danau gwyllt, gan gydnabod a diolch i'r gwahanol wasanaethau brys a oedd wedi ymateb yn gyflym yn y ddau achos.

Yn olaf, tynnodd yr Arweinydd sylw at natur fwriadol y tân gwyllt a natur dros 400 o rai eraill, a soniodd am y gwaith roedd yr Awdurdod Lleol yn ei wneud ochr yn ochr â Heddlu De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn annog trigolion i roi gwybod am unrhyw weithgarwch amheus i Crimestoppers ar 0800 555 111, ac i ddilyn rheolau syml iawn sydd wedi'u cynllunio i gadw pawb yn ddiogel drwy osgoi tanau damweiniol.

143. <u>CYFLWYNIAD GAN BRIF GOMISIYNYDD HEDDLU DE CYMRU</u>

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd yn cyflwyno Prif Gomisiynydd Heddlu De Cymru, Alun Michael a'r Dirprwy Gomisiynydd, Emma Wools, i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar waith yr Heddlu, gan gynnwys rhai cynlluniau newydd.

Rhoddodd y Prif Gomisiynydd gyflwyniad a chyfeiriodd at y Cynllun Heddlu a Throseddu a gyflwynwyd nifer o flynyddoedd yn ôl ac sydd wedi cael ei ddatblygu flwyddyn ar ôl blwyddyn ers hynny. Roedd hyn yn adlewyrchu'r hyn roedd yr Heddlu'n ei gael o ran adborth gan y cyhoedd a Chynghorwyr lleol, a sut roedd Heddlu De Cymru yn bwriadu ymateb i newid.

Pwysleisiodd fod gwaith partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid fel Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wrth galon gwaith yr Heddlu. Ychwanegodd fod hyder mewn plismona wedi dod yn broblem yn ddiweddar, yn dilyn digwyddiadau yn yr Heddlu Metropolitanaidd, a oedd wedi taflu cysgod tywyll dros blismona yn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd yn dymuno gwneud y pwynt bod gan Heddlu De Cymru enw gwahanol o ran diogelu'r cyhoedd ar lefel uchel.

Roedd am dynnu sylw at y ffaith bod lefelau troseddu yn yr ardal wedi gostwng, a bod y rhain yn cymharu'n ffafriol ar lefel Cymru gyfan.

Yn y cyflwyniad heddiw, byddai'r Dirprwy Gomisiynydd ac yntau yn rhoi cipolwg ar 3 prif agwedd ar waith, sef Plismona yn y Gymdogaeth, gyda chyllid gan y Llywodraeth Ganolog ar gyfer rhagor o Swyddogion yr Heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, nifer ohonynt wedi cael eu dyrchafu i fod yn Gwnstabliaid yr Heddlu gan fod cyllid ychwanegol wedi'i roi ar gyfer y swyddi hyn. Hefyd, byddai pynciau trafod yn ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod, gan gynnwys trais rhywiol, a gwaith yn mynd rhagddo i leihau Hiliaeth.

Yna, rhannodd y Dirprwy Gomisiynydd rai sleidiau â'r Aelodau a oedd yn rhoi sylw i'r meysydd uchod o waith parhaus yr Heddlu, ac ar ôl hynny gwahoddodd y Maer gwestiynau gan Aelodau.

Cadarnhaodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd ei bod yn falch o weld y camau a gymerwyd mewn perthynas â Thrais yn y Cartref yn erbyn menywod yn benodol, a bod profiadau uniongyrchol yn cael eu defnyddio i lunio polisïau, ond gofynnodd am rywfaint o eglurhad ynghylch sut roedd hyn yn cael ei rhoi ar waith. Gofynnodd hefyd a fyddai Dangosyddion Perfformiad yn cael eu rhoi ar waith i fesur llwyddiant y gwaith hwn. Gofynnodd hefyd a allai hi gael sicrwydd ynghylch sut roedd yr Heddlu'n mynd ati i ddelio ag unrhyw atgyfeiriadau a wnaed iddynt

mewn perthynas â lles pobl ifanc. Dywedodd hefyd, os oedd llawer o droseddwyr mynych yn aildroseddu, onid oedd hyn yn adlewyrchu bod y prosesau a oedd ar waith ddim mor effeithiol ag y dylent fod.

O ran aildroseddu, dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu fod troseddwyr mynych yn cael eu haddysgu drwy waith Asiantaeth, hynny yw, gyda phartneriaid yn ogystal ag ymwneud drwy nifer o gyrff Cyfiawnder Troseddol allweddol, gan weithio ar hyn a phrofiadau uniongyrchol. Dywedodd y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu nad oedd materion fel yr enghreifftiau uchod yn cael eu datrys drwy ffeilio ffurflenni neu lenwi holiaduron, ond drwy gael mwy o bobl sydd wedi dioddef a goroesi camdriniaeth yn siarad â phobl fel yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a phartneriaid allweddol eraill. Ar gyfer pobl iau a oedd wedi'u cam-drin, roedd darn o waith o'r enw 'Lleisiau Ifanc', sef llwybr i'r rheini a oedd yn dioddef camdriniaeth siarad yn bersonol â phobl amlwg uwch yn yr Heddlu, gan gynnwys hyd at lefel y Dirprwy ei hun, y Prif Gwnstabl a'r Prif Gomisiynydd, lle byddai'r materion roedden nhw wedi'u profi yn cael sylw pe bai angen, ar y lefel uchaf bosibl. Roedd gwasanaethau statudol a oedd yn darparu llwybrau cymorth (rhwng Gorchmynion Llys), i gefnogi ac ymyrryd gyda'r nod o leihau nifer y troseddwyr a newid eu patrymau ymddygiad. Roedd nifer o wahanol fetrigau hefyd yn cael eu defnyddio a oedd yn mesur ac yn gwerthuso effeithiau a chanlyniadau amrywiol, gyda'r nod o leihau lefelau aildroseddu ac achosion o niwed. Roedd hi'n gallu rhannu enghreifftiau o hyn gydag Aelodau ar gais.

Ychwanegodd Comisiynydd yr Heddlu fod yr Heddlu hefyd yn targedu achosion o drais lefel isel gan fod hyn yn aml yn digwydd cyn i'r trais ar lefel uwch ddigwydd wedyn. Ychwanegodd fod natur ymddygiad o'r math hwn wedi datblygu mewn llawer o unigolion oherwydd bod eu magwraeth neu ddigwyddiadau dilynol yn eu bywydau wedi cael effaith niweidiol arnyn nhw.

Dywedodd Aelod ei bod yn falch iawn o waith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghoety Uchaf. Roedd hi'n ymwybodol bod Troseddau Casineb yn weddol isel, i bob golwg, yn y Fwrdeistref Sirol, er ei bod yn cwestiynu a oedd pob digwyddiad yn ymwneud â hyn yn cael ei gofnodi mewn gwirionedd. Roedd yn ymddangos bod achosion o fwlio, trolio a gwenwyndra ar-lein yn dod yn fwyfwy amlwg mewn cymdeithas. Roedd rhai Cynghorwyr, gan gynnwys hi ei hun, yn teimlo dan fygythiad i'r uchod weithiau. Gofynnodd felly sut gallai'r Heddlu weithio gyda Chynghorwyr a gwleidyddion eraill er mwyn iddyn nhw, yn eu tro, deimlo'n fwy diogel. Dywedodd yr Aelod hefyd fod angen i Awdurdod Priffyrdd y Cyngor weithio'n agosach gyda'r Heddlu, er mwyn datrys yn llawn y materion priffyrdd sy'n cael eu hadrodd.

Roedd Comisiynydd yr Heddlu yn cydnabod bod y pwynt olaf a wnaeth yr Aelod yn fater cyffredin a bod angen i'r naill sefydliad neu'r llall neu'r ddau ar y cyd gymryd unrhyw gamau a oedd yn ofynnol a delio ag unrhyw broblem neu gŵyn, yn hytrach na bod hyn yn syrthio rhwng dwy stôl a ddim yn cael ei ddatrys gan y naill na'r llall. O ran Troseddau Casineb, roedd problem erbyn hyn o ran yr hyn a oedd yn dderbyniol o ran gosod ar lwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol, er enghraifft, y 'We Dywyll' a oedd wedi deillio dramor.

Ychwanegodd y Dirprwy Gomisiynydd bod yr Heddlu'n canolbwyntio o ddifrif ar droseddau/digwyddiadau casineb. Roedd rhywfaint o waith Craffu wedi cael ei wneud o ran sut roedd data'n cael ei gofnodi er mwyn gwella lefelau cywir o ddigwyddiadau, er mwyn cymryd camau i wella dulliau o ddelio â'r rhain. Roedd rhagor o waith wedi cael ei wneud hefyd gyda Llywodraeth Cymru ar droseddau Casineb/Hil. Roedd menywod 27 gwaith yn fwy tebygol o wynebu troseddau casineb na dynion. Roedd yr Heddlu'n gwneud rhywfaint o waith hefyd gyda dau ddarparwr partneriaeth allweddol ac fel rhan o'r gwaith hwn, roedden nhw'n bwriadu ymgynghori ag amrywiaeth o wahanol grwpiau

cymunedol a phartneriaid. Ychwanegodd y byddai'n fuddiol pe bai rhai Aelodau etholedig yn rhan o hyn hefyd.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio fod Cynllun Gweithredu newydd gael ei ryddhau gan Lywodraeth Cymru, yn dwyn yr enw LHDTC+. Gofynnodd i gynrychiolwyr yr heddlu pa waith a oedd wedi'i wneud i sicrhau bod homoffobia, casineb a rhagfarn yn erbyn menywod, deuffobia a thrawsffobia yn cael eu herio yn y gymuned ac yn y lluoedd, hynny yw, fel Heddlu De Cymru, er mwyn sicrhau, pan wneir ceisiadau am swyddi i'r Heddlu, eu bod yn cael eu hystyried nid yn unig yn ôl eu haeddiant eu hunain, ond hefyd gyda lefel o ddealltwriaeth a thosturi.

Dywedodd y Prif Gomisiynydd fod nifer o Swyddogion Heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu iau erbyn hyn oherwydd yr ymgyrch recriwtio newydd. Roedd hyn yn golygu bod rhai o'r Swyddogion hŷn wedi ymddeol a bod y broses recriwtio wedi cynnwys ymgeiswyr gyda rhai o'r agweddau a'r gwerthoedd hynny'n gadarn yn eu lle. Sicrhaodd fod y Prif Gwnstabl ac ef ei hun yn ymrwymo'n gadarn i ganfod enghreifftiau o'r uchod a delio a chael gwared arnyn nhw. Prif ethos yr Heddlu oedd 'atal gweithredoedd o droseddu', felly dyna pam roedd angen heddlu yn y lle cyntaf, gan ddileu arferion ac agweddau gwael sydd gan rai pobl mewn cymdeithas yn erbyn pobl eraill. Ychwanegodd fod Swyddogion yr Heddlu yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel PRIDE erbyn hyn, i hyrwyddo grwpiau fel hyn ac i helpu i frwydro yn erbyn unrhyw anrhefn a throsedd casineb.

Tynnodd Aelod sylw at y ffaith bod Syr Paul Stephenson wedi argymell, yn ôl yn 2009, nad oedd angen i ddau Swyddog fod ar batrôl yr heddlu. Fodd bynnag, gall Swyddogion Heddlu sydd ar eu pen eu hunain achosi rhywfaint o bryder, yn enwedig gyda grwpiau agored i niwed ac yn ystod oriau tywyll y gaeaf. Mae gennym ddarparwyr trafnidiaeth hefyd, hynny yw gorsafoedd rheilffordd a safleoedd bysiau cymunedol a gorsafoedd bysiau, lle mae rhai pobl yn teimlo yr un mor agored i niwed wrth ddefnyddio'r rhain fin nos neu'n hwyrach gyda'r nos. Gofynnodd a oedd unrhyw waith partneriaeth yn digwydd a allai fynd i'r afael â materion fel hyn.

Cadarnhaodd y Prif Gomisiynydd fod plismona unigol yn fater gweithredol sy'n cael ei ystyried gan Brif Gwnstabl yr Heddlu. Roedd angen cael cydbwysedd o ran y pwynt sydd newydd ei wneud, hynny yw, er enghraifft, pe byddai dau Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gweithio gyda'i gilydd mewn un lleoliad penodol, byddai hyn yn golygu na fyddai un ohonyn nhw ar gael i batrolio ardal arall o'r gymuned honno. Gellid edrych ar hyn wedyn fel dull lle nad oedd yr Heddlu'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddyn nhw'n llawn. Fodd bynnag, o ran y mater a godwyd ynghylch trafnidiaeth, roedd cynrychiolwyr o Heddlu Trafnidiaeth Prydain ar y Tasglu ac ar lefel Cymru gyfan, felly cadarnhaodd y byddai'n codi'r mater hwn gyda nhw. Gan edrych mwy ar ddiogelwch cymunedol yn gyffredinol, dywedodd Comisiynydd yr Heddlu fod yr Heddlu'n gweithio'n barhaus gydag awdurdodau lleol, gyda'r nod o wneud strydoedd yn fwy diogel, yn enwedig i fenywod a phobl iau. Roedd hyn yn cynnwys mewn prif ganolfannau trafnidiaeth, safleoedd bysiau a gorsafoedd bysiau/rheilffyrdd.

I gael rhagor o wybodaeth am y drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod, cliciwch https://www.youtube.com/watch?v=qxof4BJzoI8.

Gan fod hyn yn dod â sylw i'r eitem hon i ben, gan gynnwys y sesiwn holi ac ateb, diolchodd y Maer i gynrychiolwyr yr Heddlu am fynychu cyfarfod y Cyngor, ac ar ôl hynny, gadawodd y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn nodi'r adroddiad a'r cyflwyniad a gafwyd gan gynrychiolwyr Heddlu De Cymru.

144. ALLDRO CYLLIDEB REFENIW 2022-23

Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am berfformiad ariannol refeniw'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Dywedodd fod y Cyngor, ym mis Chwefror 2022, wedi cymeradwyo cyllideb refeniw net o £319.5m ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-2023. Oherwydd addasiad technegol yn y setliad terfynol, cafodd setliad y Cyngor ei gynyddu £4,336 a rhoddwyd gwybod i'r Cyngor am hyn ar 9 Mawrth 2022.

Cafodd y sefyllfa alldro derfynol ar gyfer 2022/2023 ei dangos yn Nhabl 1 yr adroddiad. Yr alldro cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf yw tanwariant net o £2.057m, ac mae hwn wedi cael ei ddefnyddio i ategu'r cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi, yn bennaf i ategu'r gronfa costau byw ar gyfer pwysau y gwyddom amdanyn nhw yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r tanwariant yn fach o'i gymharu â'r gyllideb net gyffredinol (0.6%) ar gyfer 2022/2023, ac felly ni wnaed unrhyw drosglwyddiadau i gronfa'r cyngor.

O fewn y sefyllfa alldro, roedd cyllidebau cyfarwyddiaethau wedi gorwario swm net o £8.2 miliwn ond roedd tanwariant net o £9.5 miliwn yng nghyllidebau'r cyngor cyfan. Mae'r sefyllfa alldro hefyd yn ystyried yr incwm ychwanegol o'r dreth gyngor a gasglwyd dros y gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol.

Roedd blwyddyn ariannol 2022/23 yn un anodd i'r Cyngor yn ôl y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid. Roedd y tanwariant cyffredinol yng nghyllideb y cyngor yn cuddio'n sylweddol y pwysau sylfaenol ar y gyllideb a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r prif bwysau ariannol ym meysydd gwasanaeth gwasanaethau cymdeithasol a lles, digartrefedd, a chludiant rhwng y cartref a'r ysgol.

Yn ystod 2022-2023 gwelodd y gwasanaethau cymdeithasol bwysau sylweddol i gyflawni dyletswyddau statudol yn erbyn cynnydd cyflym yn y galw am ofal cymdeithasol i blant a chynnydd yn nifer y lleoliadau preswyl annibynnol mewn gwasanaethau plant, ochr yn ochr â phwysau mewn anableddau dysgu a lleoliadau preswyl i bobl hŷn. Bydd angen i'r cyngor roi ystyriaeth bellach i'r adnoddau cynaliadwy sydd eu hangen yn benodol mewn gwasanaethau plant i wella ansawdd y canlyniadau i blant a theuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r cyngor wedi gweld cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth llety dros dro i gefnogi unigolion sy'n ddigartref. Cafodd gyllid grant gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf i gefnogi'r gwasanaeth hwn, ond roedd £2.5m o hyn yn swm a oedd ond yn cael ei roi unwaith. Mae hwn yn wasanaeth arall lle bydd angen monitro ariannol gofalus yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

Ar ben hynny, roedd yn rhaid i'r cyngor fynd i'r afael â phwysau cyllido yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf mewn perthynas â chostau cyflogau a phrisiau na ragwelwyd yn gynharach yn y flwyddyn. Cafodd aelodau etholedig eu briffio ar y pwysau yn ystod y flwyddyn yn ystod tymor yr hydref y llynedd. Mae'r pwysau hyn yn debygol o barhau yn y flwyddyn gyfredol ac felly mae arian wedi cael ei gario ymlaen i gwrdd â'r pwysau hynny.

Daeth Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru, a oedd yn cefnogi awdurdodau lleol yn ystod cyfnod y pandemig, i ben ar 31 Mawrth 2022. Fodd bynnag, roedd awdurdodau lleol yn parhau i weinyddu pedair elfen o'r cyllid hwn yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae manylion hyn i'w gweld yn Nhabl 2 yn adroddiad heddiw, ac roedd cyfanswm yr hawliad a wnaed yn 2022 - 23 yn £6.2m.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y gofynion arbedion ar gyfer y cyfnod cyn 2022/2023 a'r rhai a nodwyd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Cafodd y rhain eu nodi yn adran 3.2 yr adroddiad.

Mae llawer iawn o wybodaeth yn adran 3.3 yr adroddiad sy'n manylu ar y sefyllfa ar gyfer pob prif faes gwasanaeth. Mae sefyllfa ariannol llawer o'r gwasanaethau hyn wedi cael ei nodi drwy gydol y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Er bod rhai materion sy'n ymwneud yn benodol â gwasanaeth, adroddwyd ar arbedion yn yr holl gyllidebau refeniw mewn perthynas â swyddi gwag staff. Yn ystod y flwyddyn, mae llawer o wasanaethau wedi methu â llenwi swyddi gwag ar bob lefel er gwaethaf hysbysebu'r swyddi ar sawl achlysur. Mae Cyfarwyddiaethau'n parhau i edrych ar sut y gellir llenwi'r swyddi gwag hyn i gynnal lefelau gwasanaeth, felly nid yw'r arbedion hyn yn debygol o barhau yn y flwyddyn ariannol hon.

O ran cyllideb ehangach y cyngor, mae rhywfaint o fanylion yn Nhabl 1 yn yr adroddiad ynghylch y rhain. Mae'r llinell Cyllidebau Corfforaethol eraill yn dangos tanwariant o £5.9m. O fewn hyn mae tanwariant yn erbyn cyllideb dileu swyddi, cyflogau a phrisiau (mae hyn wedi'i ddyrannu'n llawn ar gyfer y flwyddyn bresennol), cyllideb wrth gefn a'r cyllid Covid y cytunwyd arno yng nghyllideb 2022/23 pan nad oeddem yn gwybod beth oedd effaith ariannol y pandemig ar y Cyngor. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu fel rhan o'r broses cynllunio cyllidebau ar gyfer cyllideb refeniw 2024/2025.

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi y mae'r cyngor yn eu dal ar hyn o bryd. Yn ystod 2022/2023, roedd cyfarwyddiaethau wedi tynnu arian i lawr o gronfeydd wrth gefn penodol sydd wedi'u clustnodi, a chafodd y rhain eu hadrodd i'r aelodau drwy'r adroddiadau monitro chwarterol.  Cyfanswm terfynol yr arian a dynnwyd i lawr oedd £18.9m, a chafodd hyn ei grynhoi yn Nhabl 5 yr adroddiad.

Gyda thanwariant net o £2m yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf ynghyd â dirwyn rhai cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad oedd eu hangen mwyach, mae hyn wedi galluogi i roi cyllid yn ôl i rai cronfeydd wrth gefn. Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain oedd £1.3m tuag at y gronfa costau byw, cyfraniad o £530,000 at gyfalaf ar gyfer gwaith adnewyddu a wnaed gan Cymoedd i'r Arfordir a symiau eraill i gefnogi mân waith ac astudiaethau dichonoldeb yn y flwyddyn newydd.

Darparwyd dadansoddiad llawn o'r symudiadau ar gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar 31 Mawrth 2023 yn Atodiad 4 yr adroddiad. Dylid nodi bod yr arian sydd gan y Cyngor mewn cronfeydd wrth gefn wedi disgyn £14m (ffigur net) dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa yn y blynyddoedd diwethaf pan oedd y cyngor yn gallu cynyddu ei gronfeydd wrth gefn oherwydd tanwariant yn y gyllideb refeniw. Cafodd y cyngor gymorth ariannol yn ystod y pandemig, ac nid yw nifer o'r grantiau y mae wedi'u cael ers blynyddoedd yn cael eu talu mwyach. Roedd y cyllid hwn yn cuddio'r pwysau mewn rhai meysydd gwasanaeth, sy'n cael ei adlewyrchu yn y sefyllfa alldro ar gyfer 2022/2023. Bydd yn rhaid monitro'r sefyllfa hon yn ofalus yn y dyfodol gan na ellir ariannu gwasanaethau o gronfeydd wrth gefn yn y tymor hwy.

Croesawodd yr Aelod Cabinet – Cyllid, Adnoddau a Chyfreithiol y £2m i gefnogi'r pwysau Costau Byw, ond gofynnodd am rywfaint o sicrwydd bod y tanwariant yn y gyllideb Sylfaen Gorfforaethol ar gael os oes angen, i dalu am rwymedigaethau'r Cyngor wrth symud ymlaen.

Ailadroddodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid fod rhywfaint o'r tanwariant yn ymwneud â chostau Cyflogau a Chwyddiant na roddwyd cyfrif amdanynt yng

nghyllideb y flwyddyn ariannol ddiwethaf, er y byddai'r costau hyn yn cael eu hymgorffori yn yr MTFS yn ystod y flwyddyn gyfredol. Felly, byddai angen y dyraniad yn llawn.

Ychwanegodd fod tystiolaeth o hyd o'r argyfwng costau byw ac efallai y bydd mwy o geisiadau am gymorth ar gyfer y rhan honno o'r gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Byddem felly'n edrych yn ofalus iawn ar ein cyllidebau canolog er mwyn canfod a oes angen i ni wneud unrhyw addasiadau i'r rhain yn y dyfodol.

Pwysleisiodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd, er eu bod yn nodi'r pwysau ariannol o £8.174m, fod yr Awdurdod hyd yma wedi gorwario bron £11m mewn Gwasanaethau Plant, a oedd, fel yr oedd yr Aelodau'n ymwybodol, yn wasanaeth statudol a bod yn rhaid i'r awdurdod lleol ei ddiwallu er mwyn cefnogi'r heriau ariannol hyn yn llawn.

Mynegodd Aelod ei bryder ynghylch lefel y swyddi gwag yng Nghyfarwyddiaethau'r Cyngor nad oedden nhw'n cael eu llenwi ar hyn o bryd, er bod modd yn y gyllideb i lenwi'r swyddi hyn.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod Strategaeth Gweithlu'r Cyngor wedi rhoi cyfrif am hyn a bod nifer amrywiol o gynigion y byddai'r Awdurdod yn ceisio eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â hyn. Roedd y rhain yn cynnwys, ymysg eraill, recriwtio o'r tu mewn, gan gynnwys drwy'r cynllun prentisiaeth ac edrych ar radd swyddi lle'r oedd marchnad gystadleuol iawn, fel ym maes Gofal Cymdeithasol.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn nodi sefyllfa'r gyllideb alldro refeniw ar gyfer 2022/23.

145. ALLDRO RHAGLEN GYFALAF 2022-23

Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am sefyllfa alldro cyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-2023 ac i nodi'r dangosyddion Darbodus a dangosyddion Eraill gwirioneddol ar gyfer 2022/2023.

Dywedodd fod y Cyngor wedi cymeradwyo cyllideb gyfalaf o £69.9m ar gyfer 2022/23 ar 23 Chwefror 2023 fel rhan o'r rhaglen gyfalaf ar gyfer y cyfnod 2022/23 i 2031/32. Mae'r rhaglen hon wedi cael ei diwygio a'i chymeradwyo gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn, ac roedd cyfanswm y rhaglen a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2023 yn £58.4m.

Roedd y rhaglen i gael ei chyflawni gyda £21.8m o adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys defnyddio derbyniadau cyfalaf, cyfraniadau o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, a benthyciadau. Byddai balans o £36.5m yn cael ei gyllido o ffynonellau allanol.

Nodwyd manylion y cynlluniau unigol a oedd yn dangos y gyllideb a oedd ar gael y llynedd o'i gymharu â'r gwariant gwirioneddol yn Atodiad A yr adroddiad. Ers i'r adroddiad diwethaf gael ei ystyried gan yr aelodau ym mis Mawrth 2023, gwnaed rhai mân newidiadau i'r rhaglen a nodwyd y rhain ym mharagraff 3.1.2 yr adroddiad. Felly, esboniodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid mai'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 oedd £58.76m.

Cyfanswm y gwariant cyfalaf yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf oedd £29.2m, ac ar ôl llithriant o £27.9m yn 2023/24 a rhai addasiadau i gynlluniau a ariennir gan grantiau, roedd hyn yn golygu tanwariant o £795,000.

Esboniodd fod llithriant wedi digwydd am nifer o resymau, gan gynnwys oedi cyn dechrau prosiectau er mwyn gallu cwblhau gwaith arolygu manylach, materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi, a thrafodaethau gyda chyllidwyr allanol. Cafodd aelodau wybod am y materion hyn yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd manylion y prif feysydd lle gwelwyd llithriant i'r Cyngor ym mharagraff 3.1.4 yr adroddiad.
Bydd y rhan fwyaf o'r tanwariant yn cael ei ddychwelyd i ddarpariaeth cyllid cyfalaf y Cyngor i gyfrannu at gynlluniau cyfalaf yn y dyfodol, ychwanegodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid fod y Strategaeth Cyfalaf yn rhoi trosolwg o sut mae gwariant cyfalaf, cyllid cyfalaf a gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau, ynghyd â throsolwg o sut mae risg gysylltiedig yn cael ei rheoli, a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd yn y dyfodol. Er mwyn sicrhau ein bod yn monitro hyn, cafodd nifer o ddangosyddion darbodus eu cynnwys yn y Strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor. Yn unol â gofynion y Cod Materion Ariannol ar gyfer Cyllid Cyfalaf, mae'n ofynnol i'r Cyngor sefydlu gweithdrefnau i fonitro perfformiad yn erbyn yr holl ddangosyddion sy'n edrych tua'r dyfodol a'r gofynion a nodir.

Daeth i ben drwy nodi bod Atodiad B yr adroddiad yn manylu ar y gwir ddangosyddion ar gyfer 2022/2023 ar sail alldro'r rhaglen gyfalaf. Roedd y rhain yn cadarnhau bod y cyngor yn gweithredu yn unol â'r dangosyddion cymeradwy.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 80 yr adroddiad a'r £1.115m o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a gofynnodd i'r Weithrediaeth a oedd yn wir mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr oedd yr unig awdurdod lleol sy'n rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i beidio â defnyddio'r gronfa hon yn 2022/23.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cabinet wedi ystyried yn ddiweddar ailedrych ar y ffordd y mae'n diogelu ei gyllid, gan gynnwys y ffyrdd y mae'n ymrwymo i brosiectau ac ati, yn y dyfodol. Ein hegwyddorion cyllideb ar hyn o bryd oedd peidio â chymryd rhan mewn prosiectau a chyfleoedd cyllido ac ati, nes y byddai unrhyw gyllid ar gyfer y rhain wedi'i ymrwymo'n llawn. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr bob amser wedi bod yn ofalus ac yn ddarbodus o ran diogelu ei gyllid, ychwanegodd. Byddai unrhyw newid i'r uchod yn gofyn yn gyntaf am fabwysiadu dull amgen o ymdrin â rheolau a rheoliadau ariannol y Cyngor sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn nodi'r Alldro Cyfalaf ar gyfer 2022/23 (Atodiad A i'r adroddiad) a'r Dangosyddion Darbodus gwirioneddol a Dangosyddion eraill ar gyfer 2022/23 (yn Atodiad B).

146. ALLDRO RHEOLI'R TRYSORLYS 2022-23

Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, a'i bwrpas yw cydymffurfio â gofyniad Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, i ddarparu trosolwg o weithgareddau Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac adrodd ar Ddangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022/23.

Dywedodd mai gwaith Rheoli'r Trysorlys yw rheoli llifoedd arian, benthyciadau a buddsoddiadau'r cyngor, a'i risgiau cysylltiedig. Mae'r Cyngor yn agored i risg ariannol ac felly mae adnabod, monitro a rheoli'r risg honno'n llwyddiannus yn ganolog i reolaeth ariannol ddarbodus y Cyngor.

Cadarnhaodd fod strategaeth rheoli'r trysorlys ar gyfer 2022/2023 wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor ar 23 Chwefror y llynedd.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cyd-destun economaidd a oedd yn sail i weithgarwch Rheoli'r Trysorlys y llynedd. Roedd y materion yn cynnwys:

- Y rhyfel yn Wcráin a oedd yn cadw cyfraddau chwyddiant byd-eang yn uchel;
- Roedd y cefndir economaidd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023 wedi'i nodweddu gan brisiau ynni a nwyddau uchel, chwyddiant uchel sydd wedi effeithio ar wariant a chyllidebau aelwydydd. Cododd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr i 10.1% yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2023;
- Codwyd cyfraddau llog ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn er mwyn ceisio lleihau chwyddiant. Ar ddechrau'r flwyddyn roedd cyfraddau banc ar 0.75% gan gynyddu 8 gwaith yn ystod y flwyddyn i 4.25%, ar 31 Mawrth 2023.

Mae gweithgarwch Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn cael ei gyflawni yn unol â gofynion Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth , a chafodd ein gweithgarwch Rheoli'r Trysorlys eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, y Cabinet a'r Cyngor drwy gydol 2022/2023.

Dangoswyd crynodeb o weithgareddau Rheoli'r Trysorlys yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn Atodiad A yr adroddiad, ac roedd Tabl 1 yn yr adroddiad yn crynhoi sefyllfa'r Cyngor o ran Dyledion a Buddsoddiadau Allanol.

Felly, yn gryno, esboniodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid:

- Na chymerwyd dyledion hirdymor yn ystod y flwyddyn;
- Ni ailstrwythurwyd telerau unrhyw ddyledion yn ystod y flwyddyn gan nad oedd unrhyw fudd ariannol i'r Cyngor wrth wneud hyn. Byddai hyn yn cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn gyfredol;
- Bu cynnydd bychan yn nifer y benthyciadau di-log Salix sydd gan y Cyngor;
- Cyfanswm gwerth y benthyciadau allanol y mae'r Cyngor yn ei reoli oedd £99.93m ar ddiwedd mis Mawrth 2023;.
- Roedd balans y buddsoddiadau ar ddiwedd y flwyddyn yn £74.5m, sy'n ostyngiad o £10 miliwn o'i gymharu â mis Mawrth 2022;
- Mae'r incwm sy'n cael ei ennill drwy'r buddsoddiadau'n cynyddu wrth i'r gyfradd sylfaenol gynyddu.

Wrth fuddsoddi arian y Cyngor, rhoddir sylw dyladwy i sicrhau diogelwch a hylifedd y buddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd enillion uchaf.

Yn olaf, eglurodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid fod Cod Rheoli'r Trysorlys yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor osod ac adrodd ar nifer o ddangosyddion Rheoli'r Trysorlys. Roedd y dangosyddion naill ai'n crynhoi'r gweithgarwch disgwyliedig neu'n cyflwyno terfynau ar y gweithgarwch hwnnw. Roedd Atodiad A yr adroddiad yn dangos manylion yr amcangyfrifon ar gyfer 2022/23 a nodwyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor o'i gymharu â'r rhai gwirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd y manylion hyn yn dangos bod y Cyngor wedi gweithredu o fewn y terfynau cymeradwy drwy gydol y flwyddyn ariannol.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet – Cyllid, Adnoddau a Chyfreithiol ei fod yn falch o gadarnhau bod y benthyciad roedd y Cyngor wedi'i roi i Gyngor Thurrock wedi'i dalu'n ôl yn llawn erbyn hyn, gyda llog o bron i £9k.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

- Yn nodi gweithgareddau blynyddol y trysorlys ar gyfer 2022-23.
- Yn nodi gwir ddangosyddion rheoli'r trysorlys ar gyfer 2022/23 yn erbyn y rhai a gymeradwywyd yn strategaeth rheoli'r trysorlys ar gyfer y flwyddyn honno.

147. DEDDF TRWYDDEDU 2003 - CYMERADWYO CYHOEDDI ASESIAD EFFAITH GRONNOL - CANOL TREF PEN-Y-BONT AR OGWR

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir adroddiad, yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo cyhoeddi Asesiad Effaith Gronnol ar gyfer Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Adroddwyd ar y mater hwn i'r Cabinet i'w nodi ar 20 Mehefin 2023.

Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2019, cymeradwyodd y Cyngor gyhoeddi Asesiad Effaith Gronnol ar gyfer canol tref Pen-y-bont ar Ogwr i lywio'r broses o wneud penderfyniadau yn Natganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor. Daeth yr Asesiad i ben ym mis Rhagfyr 2022.

Mae effaith cyhoeddi'r asesiad yn bwysig, ac mae'n ei gwneud yn glir i ddarpar ymgeiswyr fod yr awdurdod trwyddedu o'r farn bod nifer y lleoliadau mewn ardal benodol yn golygu ei bod yn debygol y byddai rhoi trwyddedau pellach yn anghyson â dyletswydd yr awdurdod i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Cafodd copi o'r asesiad ar gyfer 2019 i 2022 ei atodi yn Atodiad A yr adroddiad. Dechreuodd adolygiad yn 2022 ac mae Heddlu De Cymru wedi gofyn bod yr asesiad yn aros ar ei ffurf bresennol, ac mae'r manylion wedi'u hatodi yn Atodiad B. Mae enwau'r lleoliadau wedi cael eu tynnu o'r Atodiad hwn.

Dechreuodd adolygiad yn dilyn cais gan Heddlu De Cymru. Roedd yn cynnwys ymgynghoriad statudol yn unol ag Adran 5 Deddf Trwyddedu 2003 ac ymgynghoriad cyhoeddus. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 14 Rhagfyr 2022 a 8 Mawrth 2023. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd casglu tystiolaeth ar y problemau a geir er mwyn llywio'r broses o fabwysiadu'r asesiad effaith gronnol ar gyfer y cyfnod nesaf o dair blynedd. Gan fod gan yr asesiad y potensial i atal unrhyw eiddo trwyddedig newydd mewn ardal, rhaid i'r Cyngor nodi'r sail dystiolaethol dros fabwysiadu polisi o'r fath. Rhaid iddo fod yn fodlon bod nifer yr eiddo trwyddedig yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyrraedd pwynt mor gritigol y byddai rhoi trwyddedau pellach yn anghyson â dyletswydd yr awdurdod i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Ar hyn o bryd mae'r asesiad yn berthnasol i'r strydoedd canlynol yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr

- Stryd y Farchnad;
- Heol y Dderwen;
- Stryd Wyndham;
- Stryd Nolton (o'i chyffordd â Heol Ewenni, i'w chyffordd â Heol Merthyr Mawr, ond nid yr ardal rhwng Heol Merthyr Mawr a'r gyffordd â Heol y Llys Pen-y-bont ar Ogwr).

Roedd Heddlu De Cymru wedi cadarnhau bod cynnydd o 34% mewn troseddu ac anhrefn yn ystod cyfnod economi'r nos yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Dylai fformat yr asesiad gynnig tystiolaeth, gan nodi'r ystadegau a'r dystiolaeth o'r problemau drwy ymgynghori lleol. Cafodd asesiad drafft ei atodi yn Atodiad C yr adroddiad. Roedd hyn yn cynnwys data Heddlu De Cymru a oedd yn cynnwys troseddau a gofnodwyd yn yr ardal, a digwyddiadau yn yr ardal.

Gofynnodd Aelod sut roedd yr Awdurdod Trwyddedu wedi sicrhau bod deiliaid trwyddedau mewn safleoedd yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir fod hyn yn cael ei fonitro drwy archwiliad gan Swyddogion Gorfodi'r Cyngor ar y cyd â thîm Gorfodaeth Heddlu De Cymru.

Gofynnodd Aelod a oedd gan staff Rheoli Drysau mewn eiddo trwyddedig gyswllt radio â'i gilydd o hyd drwy radios llaw symudol er mwyn helpu ei gilydd pe bai ymddygiad gwrthgymdeithasol yn digwydd mewn eiddo o'r fath.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir y byddai'n gwirio'r pwynt hwn ac yn anfon ateb at yr Aelod y tu allan i'r cyfarfod.

Teimlai Aelod y byddai o fudd i ganol trefi pe byddai Gorchmynion Cyhoeddus yn cael eu rhoi ar waith eto er mwyn atal yfed alcohol ar strydoedd.

Dywedodd yr Aelod Cabinet – Tai, Cynllunio ac Adfywio fod y math hwn o Orchymyn yn anodd iawn ei orfodi, a dyna pam nad oedden nhw'n bodoli mwyach.

Teimlai Aelod, er ei bod yn fuddiol edrych ar sefyllfa'r economi yn ystod y nos yng nghanol trefi, y dylid edrych hefyd ar yr economi yn ystod y dydd er mwyn hybu mewnfuddsoddi.

Ychwanegodd Aelod fod angen i'r gwasanaethau rheoleiddio hefyd edrych ar ymddygiad meddw yn ystod y dydd yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, oherwydd nid dim ond gyda'r nos/yn oriau mân y diwrnod canlynol roedd hyn i'w weld bob tro.

Daeth yr Arweinydd â'r drafodaeth i ben, drwy gadarnhau y byddai'n mynd i'r afael â rhai o'r pwyntiau uchod, yn enwedig y rhai a oedd yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gyda'r Heddlu fel rhan o'r Fenter gydweithredol Strydoedd Mwy Diogel.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor yn cymeradwyo cyhoeddi asesiad effaith gronnol ar gyfer Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr a fydd yn cael ei gynnal o 21 Mehefin 2023 i ddiwedd y Datganiad Polisi Trwyddedu cyfredol ym mis Rhagfyr 2024. Bydd yr asesiad yn cael ei gynnal yn y strydoedd canlynol:

Stryd y Farchnad
Heol y Dderwen
Stryd Wyndham
Stryd Nolton (o'i chyffordd â Heol Ewenni, i'w chyffordd â Heol Merthyr Mawr, ond nid yr ardal rhwng Heol Merthyr Mawr a'r gyffordd â Heol y Llys Pen-y-bont ar Ogwr).

148. <u>ADOLYGIAD O DREFNIADAU CYMUNEDOL POB CYNGOR TREF A CHYMUNED</u>

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad er mwyn ceisio cytundeb y Cyngor i gymeradwyo'r Cylch Gorchwyl ar gyfer adolygu Trefniadau Cymunedol yr holl Gynghorau Tref a Chymuned yn ardal Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, a sefydlu Panel Aelodau i oruchwylio'r adolygiad.

I roi cefndir, dywedodd fod yr adolygiad Cymunedol llawn diwethaf wedi'i gwblhau'n derfynol yn 2009 ac y byddai fel arfer yn dilyn cylch 10 mlynedd. Roedd yr oedi cyn

cwblhau Adolygiad Etholiadol Pen-y-bont ar Ogwr a’r pandemig wedi golygu nad oedd digon o amser i gynnal adolygiad llawn mewn pryd ar gyfer yr Etholiadau Lleol ym mis Mai 2022, er bod adolygiadau wedi cael eu cynnal mewn tri lleoliad yn y Fwrdeistref Sirol cyn y dyddiad hwn.

Dywedodd y Prif Weithredwr y gall adolygiad ystyried un neu fwy o’r opsiynau canlynol:

- creu, uno, newid neu ddiddymu cymunedau;
- enwi cymunedau ac arddull cymunedau newydd a chreu cynghorau tref;
- y trefniadau etholiadol ar gyfer cymunedau (er enghraifft, maint y cyngor; nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol i’r cyngor, a wardiau cymunedol);
- grwpio cymunedau o dan gyngor cymuned cyffredin neu ddad-grwpio cymunedau

Er nad yw cael Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adolygiad yn ofyniad statudol, mae’n sicr yn arfer gorau. Byddai hyn yn nodi cwmpas yr adolygiad, ac yn cynnwys amserlen ar gyfer cynnal yr adolygiad, gan gynnwys dyddiadau ar gyfer ymgynghori â’r cyhoedd. Cafodd y Cylch Gorchwyl arfaethedig ei atodi yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Wrth i’r Cyngor fabwysiadu’r Cylch Gorchwyl, bydd hyn yn dechrau’r adolygiad. Pe byddai’r Cyngor yn dewis derbyn argymhellion terfynol yr adolygiad, ar ôl ymgynghori â’r cyhoedd, byddai angen cyflwyno’r argymhellion i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a fydd, yn dilyn cyfnod terfynol o 6 wythnos ar gyfer sylwadau, yn paratoi Gorchymyn i weithredu’r newidiadau.

Cynigiwyd bod y Cyngor yn gofyn i Arweinwyr Grŵp bennu pa Aelodau i eistedd ar y Panel, gyda’r Panel yn cynnwys 9 Aelod (5 Aelod Llafur a 4 Aelod o’r Wrthblaid), gan gynnwys cynrychiolaeth o’r 4 tref a’r 3 chwm. Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei fod yn gobeithio y byddai’r Panel yn gytbwys yn wleidyddol ac o ran rhyw, cyn belled ag y bo modd.

Daeth ei gyflwyniad i ben drwy gadarnhau y bydd unrhyw newidiadau i drefniadau cymunedau yn dod i rym yn yr etholiadau Tref a Chymuned nesaf ym mis Mai 2027.

Gofynnodd yr aelodau nifer o gwestiynau, a rhoddwyd ymateb iddynt gan y Prif Weithredwr a/neu Reolwr y Grŵp – Cymorth Busnes, ac ar ôl hynny,

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cytuno i:

(1) Mabwysiadu Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad o Drefniadau Cymunedol pob Cyngor Tref a Chymuned yn ardal Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr.

(2) Sefydlu Panel Aelodau’r Adolygiad Cymunedol i adolygu’r ymatebion i’r ymgynghoriad a chytuno ar y cynigion drafft a’r cynigion terfynol ar gyfer unrhyw newidiadau. Bydd y Panel Aelodau yn cyflwyno eu hargymhellion i’r Cyngor eu cymeradwyo’n derfynol.

(3) Dirprwyo’r dasg o bennu aelodau’r Panel i’r Arweinwyr Grŵp.

(4)

149. I DDERBYN Y CWESTIYNAU CANLYNOL GAN:

**Y Cynghorydd E Caparros i’r Arweinydd**

Rwy’n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn newid y terfyn cyflymder diofyn o 30mya i 20mya mewn ardaloedd adeiledig o 17 Medi eleni

ymlaen. Er bod yr Aelodau wedi cael gwybodaeth am hyn ym mis Mawrth eleni, a allech amlinellu'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sut groeso a gafodd yr ymgynghoriad cyhoeddus, ac a fyddwn yn barod i gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon ym Mhen-y-bont ar Ogwr ym mis Medi?

**Ymateb**

Mae adran Rheoli Traffig yr awdurdodau wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar gynhyrchu mapiau sy'n rhoi manylion am ffyrdd a fyddai'n cydymffurfio â Chynllun Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r ffyrdd hynny y gellid eu hystyried fel eithriad i'r broses gyflwyno gyffredinol.

Mae modd gweld y mapiau ar wefan Map Data Cymru:
https://mapdata.llyw.cymru/maps/roads-affected-by-changes-to-the-speed-limit-on-re/view#/

Er mwyn paratoi ar gyfer y newidiadau i'r terfyn cyflymder, mae'n rhaid prynu cannoedd o arwyddion a'u codi cyn y newid, a bydd angen eu cuddio tan y dyddiad newid cyflymder.

Yn ogystal ag arwyddion terfyn cyflymder newydd, bydd arwyddion newydd hefyd mewn perthynas ag ardaloedd lle mae traffig wedi'i dawelu ac ardaloedd lle bydd y terfyn o 30mya yn aros. Yn ogystal â'r oddeutu 1,400 o arwyddion i'w codi, mae hefyd angen tynnu nifer debyg o arwyddion a marciau ffordd sy'n bodoli ar hyn o bryd. Bydd yn rhaid i hyn ddigwydd ar 17 Medi 2023 neu'n fuan ar ôl hynny.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddylunio arwyddion i leoliadau newydd a chytuno ar leoliadau felly bydd aelodau a'r cyhoedd yn gweld pyst yn cael eu gosod ac arwyddion yn cael eu codi ond eu bod yn cael eu gorchuddio tan y dyddiad hwnnw.

Wrth ddefnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru ar eithriadau i'r terfyn diofyn o 20mya, nodir lleoliadau sy'n bodloni'r meini prawf eithrio ac sy'n gwella diogelwch ar y ffyrdd. Mae'r ymgysylltu cychwynnol yn awgrymu bod cefnogaeth i gynigion ar gyfer ffyrdd sy'n bodloni'r meini prawf eithrio yn ogystal ag awgrymu mân newidiadau i'r cynigion gwreiddiol. Ar wahân i'r eithriadau, bydd angen dilyn proses statudol er mwyn dirymu gorchmynion traffig penodol a gorfodi'r terfyn diofyn newydd o 20mya ar ffyrdd.

Er mwyn symud yr eithriadau a'r dirymu i'r cam ymgynghori statudol, mae data'n cael ei gasglu sy'n ofynnol er mwyn i'r adran gyfreithiol ddechrau'r broses o wneud Gorchmynion Traffig gan fod y lleoliadau penodol yn cael eu mesur ar yr amod bod safleoedd addas yn cael eu nodi ar gyfer lleoli arwyddion priffyrdd.

Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei gwblhau erbyn 17 Medi pan fydd y newid yn digwydd. Fodd bynnag, oherwydd bod miloedd o arwyddion dan sylw, rhagwelir y bydd gwaith yn mynd rhagddo ar ôl y dyddiad hwnnw, a newidiadau'n bosibl yn amodol ar sut mae'r cynigion yn gweithio'n ymarferol.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Caparros**

Mae'r newid arfaethedig i'r terfynau cyflymder wedi bod yn bwnc llosg ar y cyfryngau cymdeithasol. Roeddwn yn croesawu ymgynghoriad ar-lein Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar y cynigion, ac felly rwy'n gofyn pa mor llwyddiannus oedd hyn ac a fydd yr adborth a roddwyd yn effeithio ar yr hyn a welwn ar lawr gwlad yn ein cymunedau?

**Ymateb**

Cafwyd nifer fawr o ymatebion i’r ymgynghoriad, sydd wrthi’n cael eu hystyried. Fodd bynnag, o ganlyniad i’r rhain, mae’r Swyddogion wedi gwneud rhai newidiadau i’r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol. Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol fod adborth cadarnhaol wedi’i roi i gam cyntaf yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, nid dyma’r cam cyfreithiol angenrheidiol yn yr ymgynghoriad, oherwydd byddai hynny’n digwydd o dan gam gweithredu gorchmynion traffig. Mae nifer fawr o’r cyhoedd yn cefnogi parthau 20mya er bod diffyg cefnogaeth gyffredinol wedi bod i rai o’r eithriadau arfaethedig. Felly, mae swyddogion yn edrych ar yr holl ymatebion hyn i’r ymgynghoriad ac yn gwneud rhai addasiadau, yn enwedig o ran diwygio rhai o’r eithriadau arfaethedig.

Rydym hefyd yn ymgynghori ar y ffyrdd eithrio a fydd yn cael eu cadw ar 30mya, yn hytrach na’u bod yn gostwng yn awtomatig i barthau 20mya. Roedd rhywfaint o’r adborth yn dangos nad oedd preswylwyr yn dweud eu bod yn anghytuno â’r gostyngiad i 20mya mewn stryd benodol, ond eu bod mewn gwirionedd yn anghytuno ag unrhyw ostyngiad mewn cyflymder yn gyfan gwbl.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd M Evans**

Soniwyd y bydd y rhan fwyaf o’r gwaith sydd i’w wneud fel rhan o’r cynllun wedi’i gwblhau erbyn y dyddiad cau sef 17 Medi 2023. Fodd bynnag, deallaf y bydd gwaith yn mynd rhagddo ar ôl y dyddiad hwn, gan godi arwyddion ffordd a gwaith cysylltiedig sy’n mynd gyda hyn. A oes gennych ddyddiad cau ar gyfer cwblhau’r holl waith yma?

**Ymateb**

Na, ond mae gwaith mewn perthynas â chodi pyst ar gyfer yr arwyddion eisoes wedi dechrau. Mae llawer iawn o waith i’w wneud, gan fod bron i 1,400 o arwyddion i’w harddangos. Bydd angen newid rhai o’r arwyddion sy’n dangos 30mya ar hyn o bryd i 20mya, ac nid dim ond un arwydd y bydd angen ei newid ar ffordd benodol, ond yr arwyddion ailadrodd hefyd. Fodd bynnag, y bwriad yw cwblhau’r rhan fwyaf o’r gwaith erbyn y dyddiad ym mis Medi.

**Y Cynghorydd T Thomas i’r Arweinydd**

A wnaiff yr Arweinydd amlinellu’n fyr ei gynigion polisi i fabwysiadu trefi ‘15 munud’ yn y Fwrdeistref Sirol?

**Ymateb**

Mae’r polisi cynllunio cenedlaethol (Cymru’r Dyfodol a Siarter Creu Lleoedd) yn ceisio sicrhau bod pobl yn gallu diwallu’r rhan fwyaf o’u hanghenion dyddiol o fewn pellter cerdded neu feicio rhesymol o gartref, gyda dewisiadau beicio a thrafnidiaeth leol diogel.

Mae’r cysyniad ‘tref 15 munud’ wedi cyrraedd y penawdau’n ddiweddar, gyda rhai pobl yn ei weld fel damcaniaeth gynllwyn i reoli symudiadau ein cymunedau.

Gadewch i mi eich sicrhau nad dyma’r bwriad. Nid oes cyfyngiadau ar symud o gwbl, ac nid oes gennym y pwerau i gyfyngu ar symudiadau pobl. Mae hon yn egwyddor sydd wedi’i sefydlu ar gyfer cynllunio a chreu lleoedd sydd wedi ailymddangos ar draws y byd wrth i ni geisio mynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd a symud tuag at gymdeithas ‘sero net’.

Yng nghyd-destun sir Pen-y-bont ar Ogwr, rydym am i'n trigolion allu cael mynediad at wasanaethau o fewn 20 munud naill ai drwy gerdded neu feicio, gyda darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus hefyd ar gael fel opsiwn wrth gefn i sicrhau bod amrywiaeth o ddewisiadau teithio cynaliadwy ar gael ym mhob cymdogaeth.

Unwaith eto, yng nghyd-destun Pen-y-bont ar Ogwr, bydd yr egwyddor hon yn helpu ein trigolion i gael mynediad at siopau, hamdden, addysg, gofal iechyd sylfaenol a chyflogaeth yn agos at eu man preswylio ac o fewn y gymdogaeth leol. Mae hefyd yn golygu cael mynediad at fannau gwyrdd gerllaw ac amgylchedd lleol sy'n annog teithio llesol i hybu iechyd a lles. Mae'n rhywle y mae pobl am fyw ynddo, felly mae'n rhaid i dai fforddiadwy fod yn rhan o hyn.

Nod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yw sicrhau bod modd byw mewn cymdogaethau ar draws y fwrdeistref. Felly, mae'r egwyddor cymdogaeth 20 munud wedi cael ei hystyried a'i gwreiddio yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd o ddechrau'r gwaith o baratoi'r cynllun.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym Mhapur Cefndir RLDP 19: Cymdogaeth 20 munud

https://www.bridgend.gov.uk/media/14775/background-paper-19-20-minute-neighbourhood.pdf

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Tim Thomas**

Credaf y dylid annog yn frwd unrhyw beth sy'n annog gwasanaethau lleol i fod mor agos at gartrefi pobl ag sy'n bosibl. Nodaf ymhellach gyda diddordeb, y dylid cynnwys cyfleoedd cyflogaeth a chynllunio gofodol. Yr hyn sydd gennym yma yw cyfosodiad polisi rhwng y trefi 15 munud a Bargen Dinas-Ranbarth Caerdydd. Ar un llaw, rydym wedi cael gwybod nad yw prif fanteision Bargen Dinas-Ranbarth Caerdydd, o bosib, yn fuddsoddiad uniongyrchol i'n Bwrdeistref Sirol, er bydd hyn drwy swyddi mewn ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos y gall ein trigolion deithio iddynt. Ar y llaw arall, rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor o gael trefi 15 munud. Sut y gellir cysoni'r polisïau hyn sy'n gwrthdaro â'i gilydd?

**Ymateb**

Nid oes gwrthdaro o ran yr hyn y cyfeirir ato uchod. Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ariannu'r gwaith o ailddatblygu, er enghraifft, safle Ewenni ym Maesteg, y safle tir llwyd mwyaf yn ein cymoedd ac fel rhan o'r datblygiad hwnnw, bydd Canolfan Fenter yn darparu man deori ar gyfer lleoedd newydd sbon o ganlyniad i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn buddsoddi yn ein cymoedd, ein cymunedau ac yn y gwaith o ddatblygu ardaloedd newydd ar gyfer busnesau newydd.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Jonathan Pratt**

Mae pentref 15 munud ym Mhorthcawl, sy'n lasbrint, er nad yw fy ardal i, sef Drenewydd, yn bodloni hyn. A oes unrhyw syniadau ynghylch sut y gallwn wella hyn yn ddaearyddol yn hytrach na chael radiws o 15 munud o ganol y dref, a sut y bydd hynny'n ffitio mewn 15 munud dros ardal ddaearyddol benodol?

**Ymateb**

Os edrychwch ar ein Cynllun Datblygu Lleol Newydd y mae'r uchod wedi'i gynnwys ynddo, bydd gan y cymunedau newydd rydym yn mynd i'w datblygu gyfleoedd gwaith, darpariaeth addysgol, darpariaeth gymunedol a mannau gwyrdd. Felly, bydd y rhain yn cyd-fynd yn dda â'r egwyddorion o gael trefi 15 munud. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod

bod mwy o waith i’w wneud, yn enwedig mewn aneddiadau presennol. Mae’n anos mewn ardaloedd lle mae datblygiadau wedi digwydd eisoes, yn enwedig lle mae aneddiadau wedi’u hamgylchynu gan gefn gwlad sydd wedi’i warchod fel yn Drenewydd. Ond, byddwn yn ceisio parhau â’r math hwn o fenter. Mae Drenewydd yn agos iawn at Borthcawl a gallwch weld bod enghraifft dda iawn o sut rydym yn ceisio sicrhau bod rhai o’r gwasanaethau hynny mewn un lle, fel rhan o ddatblygiad mawr newydd y Glannau. Cafodd y CDLl newydd, fel y bydd yr Aelodau’n cofio, ei ystyried gan y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2022.

**Y Cynghorydd Maxine Lewis i’r Aelod Cabinet - Tai, Cynllunio ac Adfywio**

Ar ba gam rydym ni o ran datblygu Strategaeth Adfywio’r Cymoedd, gan ei bod wedi'i nodi yn y cynllun corfforaethol newydd?

**Ymateb**

Fel y dywedwch, mae’r Cynllun Corfforaethol newydd ‘Cyflawni Gyda’n Gilydd’ ar gyfer 2023-28 yn rhoi’r Cymoedd wrth galon ein blaenoriaethau. Rydyn ni eisoes wedi dechrau drwy fuddsoddi’n sylweddol mewn ysgolion, ein parciau gwledig, Canol Tref Maesteg, a chysylltedd digidol.

Er mwyn parhau i ailddeffro ac adfywio ein Cymoedd i gyflawni eu potensial, rydym yn arwain y gwaith o ddatblygu dogfen strategaeth. Bydd y strategaeth yn cynnwys camau gweithredu a phrosiectau manwl, sy’n harneisio potensial y cymoedd ac yn arwain y cyfleoedd a fydd yn cynnig cyfres o ddatblygiadau o ansawdd uchel a fydd yn cyfrannu at weledigaeth gydlynol ehangach ar gyfer Cymoedd Pen-y-bont ar Ogwr.

Bydd y cynllun yn hyblyg ac yn gallu addasu i amodau economaidd/marchnad sy’n newid a bodloni gofynion a dyheadau’r sector cymunedol, y sector preifat, y trydydd sector a’r sector cyhoeddus.

Rydym ar fin comisiynu’r strategaeth, ac yn dilyn cyfarwyddyd pellach gan y Cabinet yr wythnos diwethaf, dyma’r Amcanion a fydd yn sail i’r hyn y byddwn yn ei gomisiynu:

- Adolygu astudiaethau, cynlluniau a strategaethau perthnasol a ddatblygwyd dros y 10 mlynedd diwethaf sy’n berthnasol i Gymoedd Pen-y-bont ar Ogwr, sef Llynfi, Garw ac Ogwr.
- Creu sylfaen gydlynol ar gyfer sicrhau cyllid yn y dyfodol, denu buddsoddwyr a chyflawni ystod gynhwysfawr o brosiectau adfywio.
- Llunio dogfen uwchgynllun deinamig hirdymor sy’n llywio twf a datblygiad yn y dyfodol ar gyfer tair ardal y cymoedd, gan barchu ac atgyfnerthu eu cryfderau.
- Nodi a chanolbwyntio ar safleoedd allweddol a llunio cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni gan gynnwys amcangyfrif o gostau cyffredinol y prosiect, cyflawni gam wrth gam, cyllid, amseru a sefydliadau cyflawni.

Rydym am greu strategaeth sy’n ymgorffori adfywio defnydd cymysg, sy’n cynnwys cynigion ar gyfer seilwaith gwell yn y cymoedd a’r cyffiniau.

Rydym hefyd yn awyddus iawn i weithio gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu’r strategaeth ac atgyfnerthu eu priod swyddogaethau wrth gyflawni unrhyw gynnig fel: datblygwyr, yr heddlu, cynghorau cymuned, cyllidwyr, dylunwyr, y gymuned, tenantiaid, darparwyr trafnidiaeth, yr awdurdod cynllunio lleol ac adrannau mewnol perthnasol eraill.

Mae amryw o brosiectau eisoes ar waith, sy’n cael eu datblygu fel rhan o’n rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin newydd, sy’n cynnwys buddsoddi mewn eiddo masnachol yn

ein cymunedau yn y cymoedd, a chefnogi perchnogion eiddo a darpar denantiaid i wella ein stryd fawr yn y Cymoedd.

Rydym hefyd yn paratoi rhaglen i gefnogi cymunedau cydnerth, gan annog dull gweithredu o'r gwaelod i fyny sy'n cael ei arwain yn lleol, sy'n ddilyniant i'n rhaglen Datblygu Gwledig Leader, Reach, a oedd yn llwyddiannus gynt. Byddai hyn yn ceisio darparu prosiectau gwerth am arian gyda grwpiau cymunedol lleol, sefydliadau amrywiol a Chynghorau Cymuned.

Bydd ein Rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin newydd hefyd yn darparu cyfleoedd i ariannu astudiaethau dichonoldeb lleol i gefnogi syniadau am brosiectau cymunedol dan arweiniad lleol, gyda'r nod o arwain at geisiadau am gyllid yn y dyfodol. Bydd yn cefnogi amrywiaeth o grantiau i fusnesau, a chefnogaeth i dwristiaeth leol.

Bydd y rhain yn cyd-fynd yn dda ag amcanion y strategaeth ac yn ein galluogi i fwrw iddi'n syth, tra bo dull gweithredu tymor hwy yn cael ei ystyried.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Lewis**

A allwch ddweud wrthyf sut y bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ategu Strategaeth Adfywio'r Cymoedd?

**Ymateb**

Mae eiddo yn ein cymoedd wedi dirywio dros y blynyddoedd diwethaf, a bydd y Gronfa uchod yn helpu i adnewyddu ac ailwampio eiddo preswyl a masnachol, er mwyn eu defnyddio unwaith eto. Bydd y Gronfa'n hyrwyddo ein nod o adfer y cymoedd i roi mwy o fywyd ynddyn nhw. Mae dwy gronfa ar gyfer cymoedd Llynfi, Ogwr a Garw. Y gronfa gyntaf yw Grant Gwella Eiddo Creu Lleoedd Cymoedd Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd hyn yn helpu i wella tu blaen adeiladau a sicrhau bod gofod llawr masnachol yn cael ei ddefnyddio'n fuddiol. Bydd y grant hefyd yn helpu i droi gofod llawr uchaf gwag yn llety preswyl newydd uwchben unedau masnachol. Yr ail gronfa yw Grant Arolwg Eiddo Gwag. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r rheini sy'n gymwys ac sy'n gwneud cais i gynnal arolygon ar gyflwr adeiladau, asesiadau pensaernïol a dylunio cysyniadol, er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith o ailddatblygu eiddo masnachol gwag.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd D Hughes**

Croesawaf ddatblygiad dogfen Strategaeth i ailddeffro ac adfywio'r cymoedd, a chytunaf ei bod yn hanfodol bod gwaith yn cael ei wneud yma ochr yn ochr â Chynghorau Cymuned, sefydliadau a'r gymuned gyffredinol i gwrdd â gofynion a dyheadau'r cymunedau hyn. Pan ymwelodd yr Arweinydd â Chanolfan Bywyd Cwm Ogwr ar gyfer digwyddiadau i ddathlu pen-blwydd y ganolfan yn 30 oed, dywedodd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn falch o gefnogi gweithgareddau chwaraeon yng Nghwm Ogwr. Roedd yr arolwg annibynnol a gynhaliwyd ac a ariannwyd gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru, a oedd yn sail i Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cyngor Cymuned Cwm Ogwr 2022-27, yn dangos mai'r ail flaenoriaeth fwyaf i drigolion oedd darparu parciau a chyfleusterau chwaraeon. Ail-gadarnhaodd y preswylwyr hyn mewn cyfarfod cyhoeddus ar 17 Mehefin, pan wnaethant gymeradwyo cyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb ar gyfer ailddatblygu 2 safle ym Mro Ogwr. Un i'w ddefnyddio fel parc coffa a'r llall ar gyfer Ardal Gemau Aml-ddefnydd. Yr hyn a ddaeth yn amlwg hefyd oedd y gefnogaeth i gyfleuster pob tywydd a gwelliannau ym meysydd chwarae Planka. Rhywbeth y mae preswylwyr yn credu iddo gael ei addo iddynt ers blynyddoedd lawer. A fydd y Cynllun Strategol hwn yn gallu darparu cefnogaeth ar gyfer cynigion fel y rhain yn awr ac yn y dyfodol? Yn olaf, gwn fod

yr Aelod Cabinet yn frwd dros adfywio ardaloedd y cymoedd ac felly edrychaf ymlaen at weld yr holl randdeiliaid yn cydweithio er budd ein cymunedau.

**Ymateb**

Byddwn yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid i fwrw ymlaen â'r gwaith fel y disgrifir uchod gan fod gennym lawer iawn o grwpiau cymunedol ac unigolion brwd iawn sy'n awyddus i gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol. Rwy'n sicr y byddan nhw'n ceisio sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn yr ymgynghoriad hwn ac, i'r perwyl hwn, rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda phob carfan berthnasol i fwrw ymlaen a symud pethau yn eu blaenau. Prif ran y Strategaeth fydd canolbwyntio ar adfywio, a byddwn yn edrych i weld beth y gallwn ei gyflawni drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ac unrhyw gyllid arall sydd ar gael, i annog twf ac adnewyddu busnesau a mannau cyhoeddus yn ein cymoedd ar gyfer trigolion sy'n byw yno ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae'r Cabinet wedi bod yn trafod cyfleoedd yma gyda Bwrdd Rheoli Corfforaethol y Cyngor. Bydd y Strategaeth hefyd yn ceisio dod â chyfleusterau adfywio, hamdden a chwarae at ei gilydd. Mae'r Ardal Gemau Aml-ddefnydd wedi cael ei thrafod ers amser maith a, gobeithio, drwy gydweithio, y gellir gwireddu hyn drwy gael cyllid i'w ddatblygu. Mae Cyngor Cymuned Cwm Ogwr wedi bod yn rhan o drafodaethau ar hyn gyda thîm Trosglwyddo Asedau Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ychwanegodd yr Arweinydd fod dyhead i ddarparu cae pob-tywydd yng Nghwm Ogwr, a byddai cefnogaeth uniongyrchol yn cael ei rhoi i'r Cyngor Cymuned i ddatblygu'r camau nesaf drwy Broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol, gyda chymorth Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo a Sefydliad Pêl-droed Cymru a phartneriaid eraill yn y cymoedd, sy'n dymuno bod yn rhan o'r gwaith o gefnogi hyn ac unrhyw brosiectau tebyg eraill o'r fath.

**Y Cynghorydd Ian Williams i'r Aelod Cabinet - Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd**

A all yr Aelod Cabinet roi rhyw syniad i mi ynghylch pa ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar gyfer cyfleusterau chwarae a hamdden yn yr awyr agored i blant hŷn yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr, a phryd? Mewn cyfarfod fis Rhagfyr diwethaf, cytunwyd i ddarparu man chwarae yng Nghaeau Newbridge ar gyfer plant hŷn, ond mewn neges e-bost ddiweddar dywedwyd wrthyf nad oedd hyn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ond gallai fod yn opsiwn yn y dyfodol. A gaf i ofyn felly pryd y bydd y ddarpariaeth bwysig hon yn digwydd?

**Ymateb**

Mae amrywiaeth eang o ddarpariaeth chwarae a hamdden awyr agored ar draws y fwrdeistref sirol sy'n cael ei darparu gennym ni, cynghorau cymuned, darparwyr preifat a grwpiau diddordeb penodol.

Mae darpariaeth o'r fath yn cynnwys llawer o gyfleoedd, er enghraifft, caeau hamdden ar gyfer chwaraeon pêl, i gaeau 3G mewn ysgolion i'w defnyddio gan y gymuned. Hefyd, ceir parciau sglefrfyrddio, ardaloedd gemau amrywiol yn ogystal â mannau gwyrdd agored, criced, bowlio, athletau, parciau sglefrio, golff a thenis, yn ogystal â chanolfannau hamdden sy'n cael eu rhedeg drwy Halo.

Mae llawer o grwpiau'n elwa drwy broses trosglwyddo asedau cymunedol ar ffurf grantiau sydd wedi caniatáu uwchraddio cyfleusterau a sicrhau buddion yn y cymunedau hynny.

O ran darpariaeth y cyngor, mae meysydd chwarae ffurfiol wedi'u cynllunio i gwrdd ag ystod o grwpiau oedran. Mae'r cyngor wedi ymrwymo i wario dros £2,500,000 hyd yma

ar adnewyddu mannau chwarae presennol, ac rydym wedi ymgysylltu â chynghorwyr lleol ar safleoedd i drafod yr anghenion mewn ardaloedd unigol.

Yn benodol, yng Nghaeau Newbridge, mae'r ardal chwarae'n addas ar gyfer plant o bob oed, o blant bach i bobl ifanc yn eu harddegau. Roedd y gwaith adnewyddu a gafodd ei drafod yn golygu cadw'r profiadau chwarae hynny a oedd yn cael eu gwerthfawrogi a, lle bo hynny'n bosibl, ailwampio'r ardal chwarae er mwyn ystyried hygyrchedd a chynhwysiant.

Rydym yn ymwybodol bod aelodau yn awyddus i wella mwy ar yr hyn a gynigir yng Nghaeau Newbridge, ond byddai hyn yn golygu creu profiadau hamdden newydd ac mae'r cyllid presennol wedi'i anelu at adnewyddu'r hyn a gynigir fel darpariaeth chwarae ar hyn o bryd. Byddai lefel y cyllid i greu profiad hyfyw newydd yn golygu nodi a chyfiawnhau'r thema hamdden, darparu lleoliad addas ymysg y cyfleusterau presennol, dylunio ac adeiladu priodol ac yna cynnal a chadw parhaus, a byddai'n rhaid ariannu pob un o'r rhain yn briodol.

Mae'r ffocws ar hyn o bryd ar adnewyddu ein mannau chwarae presennol ar draws y fwrdeistref, felly er y gallai fod cyfle yn y dyfodol i edrych ar wella cyfleusterau hamdden yng Nghaeau Newbridge, nid ydym yn gallu darparu amserlen fanwl ar gyfer pryd y gellid bwrw ymlaen â hyn.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd I Williams**

A all yr Aelod Cabinet egluro pam y mae'r Cyngor wedi methu â darparu parc sblash i'n plant, pan fo gan bob awdurdod cyfagos o leiaf un, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf â dau? A allwn gael sicrwydd y bydd gan Ben-y-bont ar Ogwr, yn ystod tymor presennol y Cyngor hwn, barc sblash ar gyfer y plant yn y Fwrdeistref Sirol, gan ddileu'r angen i deuluoedd deithio i Fwrdeistrefi Sirol cyfagos, a fydd yn helpu i leihau ein hôl troed carbon?

**Ymateb**

Rydych yn ymwybodol o adroddiadau Cyllid blaenorol a ystyriwyd yn y cyfarfod heddiw, o'r sefyllfa ariannol y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ei hwynebu ar hyn o bryd, yn enwedig gyda'r pwysau parhaus ym maes Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant. Wrth gwrs, byddem wrth ein bodd yn cael pwll sblash, ond rydym wedi ymrwymo £1.5m yn ddiweddar i ailwampio 22 o fannau chwarae i blant ledled y Fwrdeistref Sirol, a bydd proses dendro yn cychwyn ar gyfer y gwaith maes o law. Pe bai cyllid ychwanegol ar gael, yna, wrth gwrs, gallem edrych ar ddarparu'r cyfleuster uchod.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd M Lewis**

Rwyf yn hapus iawn bod y 6 maes chwarae i blant yn cael eu huwchraddio yng nghwm Garw eleni. A allech chi gadarnhau pa bryd y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau?

**Ymateb**

Mae 6 ardal o'r fath lle bydd gwaith adnewyddu'n cael ei wneud, ond mewn gwirionedd 7 os byddwch yn cynnwys yr ardal chwarae ym Metws. Bydd yr 22 ardal chwarae lle mae gwaith i fod i gael ei wneud, yn cael eu gwneud yn nhrefn y rhai sydd fwyaf mewn angen, ar ôl cwblhau'r Asesiad Risg sydd wedi'i gynnal. Fel y nodwyd, mae'r broses dendro ar waith, a phan fydd hyn wedi cael ei gwblhau, rhagwelir y bydd y gwaith yn dechrau ym mis Hydref 2023. Fodd bynnag, oherwydd bod sawl ardal, yn ogystal â maint y gwaith a materion yn ymwneud â chapasiti, nid yw'n debygol y bydd pob ardal

yn cael ei chwblhau tan dymor y gwanwyn/haf nesaf. Roedd aelodau'r wardiau yn rhan o hyn o'r blaen, er mwyn gallu gweld pa ardaloedd chwarae yn eu Wardiau oedd angen blaenoriaeth o ran eu hailwampio.

**Y Cynghorydd Mark John i'r Aelod Cabinet - Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd**

A allwn gael adroddiad cynnydd ar Rwydwaith Gwresogi Pen-y-bont ar Ogwr?

**Ymateb**

Mae Prosiect Cam 1 Rhwydwaith Gwresogi Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnig darparu gwres a thrydan, drwy gyfrwng generadur gwres a phŵer cyfun sy'n cael ei bweru gan nwy yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr, i Ganolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr, y Swyddfeydd Dinesig a Neuadd Bowlio Pen-y-bont ar Ogwr. Cafodd cais am grant cyfalaf ei gymeradwyo gan Lywodraeth y DU drwy'r Rhaglen Buddsoddi mewn Rhwydweithiau Gwresogi (HNIP) am fuddsoddiad cyfalaf o £1,000,000 tuag at adeiladu'r rhwydwaith gwresogi a £241,000 ar gyfer y gwaith cyn adeiladu. Mae'r pecyn cyllid llawn y cytunwyd arno yn cynnwys buddsoddiad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o'r rhaglen gyfalaf a benthyciadau darbodus yn ogystal â'r grant HNIP hwn.

Mae'r broses gaffael ar gyfer prif gontractwr wedi'i chwblhau ac mae contractwr sy'n cael ei ffafrio wedi cael ei ddewis. Fodd bynnag, mae'r gost adeiladu wedi cynyddu o ganlyniad i chwyddiant mewn deunyddiau, peiriannau a llafur yn ystod y misoedd diwethaf, sy'n golygu bod diffyg cyfalaf. Roedd y model ariannol cymeradwy yn seiliedig ar gyfradd llog Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus o 2.6%. Ond, mae cyfraddau llog wedi cynyddu'n sylweddol ers hydref 2022 gan arwain at gostau cyllido uwch a allai arwain at anawsterau yn y llif arian, yn enwedig yn ystod blynyddoedd cynharach gweithredu'r prosiect. Mae swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn trafod gyda'r contractwr i weld sut y gellir lleihau costau.

Mae Achos Busnes Amlinellol wedi cael ei greu ar gyfer Cam 2 y rhwydwaith, a'r ateb sy'n cael ei ffafrio yw system pwmp gwres ffynhonnell dŵr wedi'i gosod o fewn ffin ysbyty Glanrhyd, gan ddal gwres o afon Ogwr gyda boeleri nwy fel system wrth gefn ac i ddiwallu'r galw am wres ar oriau brig. Mae safleoedd wedi cael eu nodi ar gyfer paneli solar ffotofoltäig preifat wedi'u cysylltu â gwifren. Mae opsiynau ar gael ar gyfer ynni gwynt yn syth o'r cyflenwr neu wedi'i gysylltu'n uniongyrchol, ac ynni solar ychwanegol. Mae ugain adeilad wedi'u cynnwys yn nyluniad presennol y cynllun arfaethedig gan gynnwys Ysbyty Glanrhyd ac Ysbyty Tywysoges Cymru, Canolfan Hyfforddi Heddlu De Cymru, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, ac ysgolion.

Byddai Cam 1 hefyd yn cael ei fabwysiadu yng Ngham 2 gan ddisodli'r generadur nwy â ffynhonnell ynni di-garbon. Cafodd y model ariannol sy'n sail i Achos Busnes Amlinellol Cam 2 ei ddiweddaru ym mis Mawrth 2023 i gyfrif am y cynnydd sydd wedi'i sbarduno gan chwyddiant mewn costau adeiladu, ac i ddefnyddio'r amcanestyniadau prisiau ynni a'r ffactorau allyriadau diweddaraf. Dangosodd hyn fod y prosiect yn dal yn ariannol hyfyw.

Rhoddwyd ystyriaeth i nifer o opsiynau ar gyfer datblygu dau gam y rhwydwaith yn y dyfodol. Yr opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio oedd trosglwyddo'r gwaith o ddarparu seilwaith Cam 1 i'r gwaith datblygu Cam 2 sydd ar y gweill ar hyn o bryd, ac i edrych ar gyfleoedd masnachol ar gyfer perchnogaeth, cyflawni a gweithredu gan drydydd parti. Gallai partneriaid cyflawni posibl gynnwys Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Llywodraeth Cymru a chwmnïau yn y sector preifat. Mae proses archwilio i'r rhain yn digwydd ar hyn o bryd a bydd adrodd yn ôl ar hyn maes o law.

150. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified